3.14 **Llywodraethu:** Mae penderfyniadau ar fuddsoddiad rheolaeth trysorlys a benthyca yn cael eu gwneud bob dydd, ac felly'n cael eu dirprwyo i'r Pennaeth Cyllid a'r staff Cyllid, fel y'u cynghorir gan y Prif Swyddog Cyllid, lle bo angen. Rhaid i'r Pennaeth Cyllid a'r staff Cyllid weithredu yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ym mis Chwefror bob blwyddyn. Cyflwynir adroddiadau ar weithgarwch rheolaeth trysorlys i'r Awdurdod fel a ganlyn:

- Bydd adroddiad dros dro ar weithrediad rheolaeth trysorlys ar gyfer 2021/22 yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod cyn diwedd blwyddyn galendr 2021 (yn ysgrifenedig, neu ar lafar fel y bernir sy'n briodol).
- Bydd yr adroddiad blynyddol ar weithrediad rheolaeth trysorlys ar gyfer 2021/22 yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod Awdurdod Mehefin 2022.

4 **BUDDSODDIADAU AR GYFER DIBENION GWASANAETH**

Nid yw'r Awdurdod yn ymgymryd â buddsoddiadau o'r fath, yn hytrach, mae'n darparu cymorth trwy gyfrwng grantiau e.e. Cronfa Gomisiynu, cronfa grantiau bach, cyllideb adeiladau rhestredig.

5 GWEITHGAREDDAU MASNACHOL

5.1 Ar hyn o bryd nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau mewn eiddo er budd ariannol yn unig.

5.2 Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau masnachol eraill, megis gwely a brecwast yng Nghanolfan Plas Tan y Bwlch, gwerthiant yn y tair Canolfan Groeso, ac yn eiddo Yr Ysgwrn. Mae'r enillion yn cyfrannu at gostau rhedeg y gwasanaethau unigol. Fel nodwyd yn Natganiad Cyfrifon 2019/20 – *roedd £2,513k wedi ei gynhyrchu o ffioedd ac incwm gwasanaeth fel arall. Y prif rannau oedd:*

- *Incwm ffioedd y Maes Parcio* £884k
- *Ffioedd cyrsiau'r Ganolfan Astudio* £496k
- *Ffioedd Cynllunio* £185k
- *Gwerthiannau'r Canolfannau Croeso* £159k
- *Rhent* £141k

5.3 Rheolir y risgiau dan sylw trwy gyfrwng bwrdd rheoli Plas Tan y Bwlch, bwrdd rheoli'r Ysgwrn, ac adroddiadau monitro cyllideb i aelodau'r Awdurdod. Mae Plas Tan y Bwlch a'r Ysgwrn hefyd wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

6 ATEBOLRWYDD

6.1 Er bod yr Awdurdod yn ddi-ddyled, mae'n ymrwymedig i wneud taliadau yn y dyfodol i dalu am ei ddiffyg yn y gronfa bensiwn (gwerth £4,589k ar 31/3/2020). Mae'r Awdurdod wedi parhau i dderbyn symiau sylweddol o grantiau refeniw a chyfalaf "un-tro" a dalwyd ymlaen llaw mewn blynyddoedd diweddar - trosglwyddwyd y rhan fwyaf o'r rhain i'r cronfeydd refeniw a chyfalaf wrth gefn, tra bo rhai (yn cynnwys grant cynllun ERAMMP a grant LIFE) wedi'u cofnodi o dan gredydwyd.

6.2 Mae'r Awdurdod yn adolygu'r cronfeydd wrth gefn yn flynyddol.

6.3 **Llywodraethu:** Adroddir ar sefyllfa'r gronfa bensiwn yn flynyddol i'r aelodau fel rhan o'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol. Mae'r Pennaeth Cyllid yn adolygu'r sefyllfa o ran defnyddio grantiau a chynnydd yn erbyn proffil fel rhan o'r broses fonitro cyllideb sy'n bwydo i mewn i adroddiadau i'r aelodau bob mis Medi, Rhagfyr a Mawrth, ac adroddiad alldro'r Awdurdod ym mis Mai.

7 Goblygiadau'r Gyllideb Refeniw:

7.1 Gan fod yr Awdurdod yn ddi-ddyled, nid oes unrhyw daliadau llog dyled i'r gyllideb refeniw.

7.2 **Cynladwyedd:** Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn fodlon bod y rhaglen gyfalaf arfaethedig yn ddarvoudus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, oherwydd nid oes angen ei ariannu gan ddyledion allanol.

8 GWYBODAETH A SGILIAU

- 8.1 Mae'r Awdurdod yn cyflogi staff cymwys a phrofiadol proffesiynol mewn swyddi uwch sy'n gyfrifol am wneud gwariant cyfalaf, benthyca a phenderfyniadau buddsoddi. Er enghraifft, mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifydd cymwysedig gyda 40 blynedd o brofiad perthnasol (17 mlynedd o brofiad fel swyddog cyllid statudol) gyda mynediad dyddiol at gyngor rheolaeth trysorlys arbenigol, tra bo'r Pennaeth Cyllid hefyd yn rhannol gymwysedig gydag 13 blynedd o brofiad yn y swydd bresennol.
- 8.2 Lle nad oes gan staff yr Awdurdod y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen, mae'n bosibl defnyddio ymgynghorwyr allanol ac ymgynghorwyr sy'n arbenigwyr yn eu maes. Ar hyn o bryd, mae gweithrediadau Rheolaeth Trysorlys yr Awdurdod yn gymharol syml, felly nid oes angen arbenigedd allanol, ac eithrio ymgynghori fel bo'r angen gyda Phrif Swyddog Cyllid yr Awdurdod.

9 ARGYMHELLION

- 9.1 **Noder nad oes bwriad i fenthyca arian at ddibenion cyfalaf, ond mae'r cyfyngiadau isod yn cael eu hargymell ar lefel ddarbodus fel mesur rhagofalus rhag ofn bydd argyfwng, neu fod angen gwariant ar fyr rybudd.**
- 9.2 **Cymeradwyo dim newid yn:**
- (i) **y Cyfyngiad Benthyca Awdurdodedig o £500,000 ar gyfer 2021/22, a Ffin Weithredol o £100,000, a**
 - (ii) **dim cyfyngiad ar gyfran y llog sy'n daladwy ar gyfradd amrywiol.**
- 9.3 **Mabwysiadu'r Strategaeth Benthyca Cyfalaf ar gyfer 2021/22 fel yr amlinellir ym mharagraff 3.3 yr adroddiad, a nodi'r cynnwys sy'n ymwneud â'r Cod Darbodus (gweler y tablau o dan baragraffau 2.2, 3.3 a 7.1).**
- 9.4 **Mabwysiadu'r Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2021/22 fel yr amlinellir ym mharagraffau 3.5-3.14 yr adroddiad, a nodi'r sefydliadau a restrir ym mharagraff 3.7.**

CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG : 2021/22 – 2024/25 AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

1. CEFNDIR

- 1.1 Dogfen drosolwg yw hon sy'n nodi'r prif faterion ariannol a fydd yn effeithio ar yr Awdurdod dros y blynyddoedd nesaf. Ategir y ddogfen gan nifer o bapurau technegol a baratowyd gan wasanaeth Cyllid yr Awdurdod, gyda Swyddog Adran 151 yr Awdurdod yn cynghori ar ragolygon strategol.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r sefyllfa yn gryno, ac yn benodol bydd yn galluogi Aelodau a staff yr Awdurdod i gael dealltwriaeth bellach mewn perthynas â:
- Senarios modelu,
 - Egwyddorion a fabwysiadwyd wrth ddyrannu adnoddau,
 - Pennu graddau unrhyw heriau / cyfleoedd ariannol,
 - Egwyddorion i fynd i'r afael â phwysau cyllido.

2. Y GOFYNIAD AM GYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG (CATC)

- 2.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) hwn yn nodi ymagwedd strategol yr Awdurdod tuag at reoli ei gyllid, ac mae'n amlinellu ystod o sefyllfaoedd ariannol a all wynebu'r Awdurdod dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r gwaith o gyflawni'r strategaeth yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael drwy setliadau Llywodraeth Cymru (LIC) ac ar lwyddiant yr Awdurdod o ran unioni adnoddau â'i flaenoriaethau gwasanaeth.
- 2.2 Mae'r CATC yn nodi cyflwr cyffredinol cyllideb yr Awdurdod ac mae'n amlinellu model o ofynion ariannol yr Awdurdod ar gyfer lefelau'r gwasanaeth y bwriedir eu darparu yn y tymor canolig. Mae hyn yn darparu fframwaith er mwyn galluogi'r Aelodau a'r swyddogion i ddatblygu dyraniadau cyllideb blynyddol manwl.
- 2.3 Bydd y CATC yn offeryn allweddol ar gyfer rheolaeth ariannol ragweithiol. Fe'i defnyddir fel sail i'r broses o bennu'r gyllideb flynyddol er mwyn sicrhau bod anghenion adnoddau'r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn i ddod yn ddigonol ac wedi'u hunioni â'r gwasanaethau cywir, ond hefyd yn caniatáu pennu gofynion ariannu rhagweledig y dyfodol yn ddigon pell ymlaen llaw fel y gellid cynllunio i gymryd camau priodol i ddelio â'r lefelau cyllido a ragwelwyd.
- 2.4 Bob blwyddyn mae'n rhaid mynd ati i baratoi cyllideb flynyddol. Bydd y CATC yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn fel rhan o gylch cynllunio'r gyllideb flynyddol. Bydd yr Aelodau'n parhau i gael gwybod am y datblygiadau yn y CATC trwy gyfarfod yr Awdurdod (cyn i Aelodau'r Awdurdod dyrannu cyllideb yng nghyfarfod Gweithgor mis Mawrth eleni), a bydd y gwasanaethau'n ystyried dewisiadau o ran costau ac arbedion a / neu gynhyrchu incwm fel rhan o gylch cynllunio'r gyllideb flynyddol.
- 2.5 Wedi'r cynnydd o 10% yn nyranid Grant Parc Cenedlaethol ar gyfer 2021-22 a dderbynnir oddi wrth Llywodraeth Cymru, at ddiben yr adroddiad hwn rydym yn cymryd fod y grant craidd hwnnw ddim wedi ei gadarnhau ar gyfer y blynyddoedd dilynol gan mai cyllideb am flynyddyn yn unig sydd wedi ei gymeradwyo. Bydd

Llywodraeth newydd mewn lle yn ystod y flwyddyn, sydd yn golygu gall blaenoriaethau newid.

- 2.6 Ymhellach, tra mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig cronfeydd cyfalaf sylweddol, gall gweithredu arnynt fod yn drafferthus oherwydd annigonolrwydd adnoddau staff i gefnogi cyflawni prosiectau cyfalaf sylweddol rheiny dros gyfnod estynedig.

3. BLAENORIAETHAU AC AMCANION TYMOR CANOLIG YR AWDURDOD:

- 3.1 Bydd angen i'r CATC gyflawni blaenoriaethau canolig i hirdymor, ynghyd ag amcanion a phwrpasau statudol yr Awdurdod. Mae pwrpasau statudol yr Awdurdod wedi'u diffinio yn Neddf yr Amgylchedd 1995 fel a ganlyn:

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal,
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardal;

ac wrth fynd ar ôl y pwrpasau hyn, dylai'r Awdurdod geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol (wrth gwrs, cadarnhawyd y dyhead yma yng nghyfarfod Awdurdod 9 Rhagfyr 2020).

- 3.2 Mae'r dogfennau canlynol yn allweddol i arwain cyfeiriad yr Awdurdod yn ystod y cyfnod hwn:

- Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol,
- Cynllun Datblygu Lleol,
- Ein Gweledigaeth,
- Cynllun Busnes a Gwelliant,
- Blaenoriaethau Gwasanaeth,
- Rhaglen Waith Gorfforaethol,
- Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn y ddogfen "Gwerthfawr a Chydnerth".

- 3.3 Mae'r pandemig Covid-19 wedi golygu'r angen i ymdopi gyda'r sefyllfa o agwedd diogelu'r cyhoedd a swyddogion yr Awdurdod, ac mae cymorth grant 'cronfa caledi' wedi'i hawlio oddi wrth Llywodraeth Cymru yn ystod 2020/21 fel bo ar gael. Mae'r mesurau a gymerir yn golygu colledion incwm sylweddol iawn i'r Awdurdod a rhaid ystyried hyn yn y CATC yma, ynghyd ag ansicrwydd argaeledd grant cyffelyb oddi wrth Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22 a tu hwnt.

4. YR HER ARIANNOL

- 4.1 Ers sefydlu awdurdodau'r parciau cenedlaethol ym 1996, mae'r Awdurdod wedi'i rymuso i reoli ei gyllid ei hun, ond wedi goddef cyfnod estynedig o gyfyngiadau ariannol. Mae goblygiadau pandemig Covid-19 wedi ychwanegu at hyn, er y cymorth grant dros-dro a dderbynnir i leddfu'r effaith ariannol.

Mae 2020/21, fodd bynnag, wedi gweld ffrydiau ychwanegol o grantiau trwy Lywodraeth Cymru sef:

- £275,214 (refeniw) a £314,530 (cyfalaf) i'w defnyddio yn y blynyddoedd ariannol 2020/21 a 2021/22.
- £1,541,600 o arian "Tirweddau Cynaliadwy, Llefydd Cynaliadwy" (T.C.LI.C) i'w wario yn y flwyddyn ariannol 2020/21. Disgwylir y bydd cyllid grant pellach o'r ffynhonnell hon ar gael yn 2021/22, ond nid yw'r swm yn hysbys i ni hyd yma.

Yn ogystal, nodwyd y bydd cynnydd o 10% yn ein Grant Parc Cenedlaethol a'r ardoll cysylltiedig yn 2021/22. Ar adeg sgwennu'r adroddiad, mae'r defnydd o'r gwarged cyllideb (£476,251) eto i'w benderfyni. Bwriedir cynnal trafodaeth yng ngweithgor yr Aelodau ym mis Mawrth.

4.2 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw ffigyrau dangosol ar gyfer y blynyddoedd canlynol 2022/23 – 2024/25, a disgwylir y bydd Canghellor Llywodraeth San Steffan yn cynnal 'Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr' pellgyrhaeddol fydd yn ysgwyd ffynonellau cyllido Llywodraeth Cymru cyn 2022/23.

4.3 Cyllideb Sylfaenol yr Awdurdod:

Dyma grynodedb o sefyllfa cyllideb gychwynnol yr Awdurdod dros y 5 mlynedd ddiwethaf:

Blwyddyn	2020/21 £'000	2019/20 £'000	2018/19 £'000	2017/18 £'000	2016/17 £'000
Gwariant Refeniw Gros	10,385	11,165	7,430	7,160	6,733
Incwm Refeniw	-5,201	-6,307	-2,907	-2,299	-1,849
Gwariant Refeniw Net	5,184	4,858	4,523	4,861	4,884
Gwariant Cyfalaf Net	1,795	998	184	222	351
Cyfanswm y Gyllideb Wreiddiol	6,979	5,856	4,707	5,083	5,235
Grant	3,745	3,745	3,550	3,745	3,745
Ardoll	1,248	1,248	1,183	1,248	1,248
Cronfeydd Wrth Gefn	1,986	863	-26	90	242
Cyfanswm y Gyllideb	6,979	5,856	4,707	5,083	5,235

* Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys toriadau yn ystod y flwyddyn, y grantiau ychwanegol a geir na diwygiadau i'r gyllideb yn ystod y flwyddyn

4.4 **Cyllidebau Blynyddol:**

Rhaid i'r Awdurdod osod ei gyllideb yn amserol. At ddibenion gosod ardoll ar awdurdodau lleol cyfansoddol, mae angen i'r Awdurdod hwn gytuno ar gyllideb gytbwys erbyn 11 Chwefror mewn unrhyw flwyddyn. Gan na fydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau'r ffigwr setliad grant terfynol am 2021/22 cyn mis Mawrth, gall hynny newid yn y cyfamser. Os bydd y setliad yn uwch na'r disgwyl, bydd yr Awdurdod yn colli'r lefi ychwanegol. Os fydd y setliad yn is, yna gall yr Awdurdod geisio cytundeb y Cynghorau cyfansoddiadol i aros hefo'r ardoll a gymeradwywyd ar 3ydd Chwefror. Yn absenoldeb unrhyw gyllidebau dangosol tu hwnt i 2021/22, mae'r Awdurdod mewn sefyllfa anodd i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd hyn. Tra'n gofyn i Lywodraeth Cymru barhau gyda lefel grant 2021/22 ar gyfer 2022/23 (gyda'r cynnydd 10%), ni fyddai'n ddarbodus i gynllunio ar sail rhagdybiaeth o hynny.

4.5 **Pwysau Ariannol Blynyddol ar yr Awdurdod:**

Bob blwyddyn mae pwysau ariannol ar yr Awdurdod. Mae'r pwysau hwn yn effaith gronol:

- Pwysau chwyddiant
- Ymrwymadau na ellir eu hosgoi
- Mesurau effeithlonrwydd wedi'u cynllunio / Ffrydiau incwm

Yn ystod y 4 blynedd nesaf mae'r pwysau ariannol cronol a amcangyfrifir ar yr Awdurdod wedi'u crynhoi yma.

Blwyddyn	Gwariant (£)	Incwm (£)	Trosglwyddiadau i/o gronfeydd (£)	Gwariant ychwanegol net (£)
2021/22	1,359,452	146,322	-1,505,774	0
2022/23	-458,251	444,368	0	-13,883
2023/24	89,000	0	0	89,000
2024/25	90,000	0	0	90,000

Noder fod y ffigyrau uchod am 2021/22 yn cynnwys effaith cynlluniau grant a llinellau gwariant "un tro". Darperir dadansoddiad pellach o'r uchod yn y papur hwn.

4.6 **Pwysau chwyddiant:**

Fel arfer adroddir i'r Awdurdod am bwysau chwyddiant, y rhain yw'r pwysau a bennwyd ar gyfer y pedair blynedd nesaf:

Blwyddyn	2021/22 (£)	2022/23 (£)	2023/24 (£)	2024/25 (£)
Chwyddiant Cyflogau	50,440	78,000	79,000	80,000
Chwyddiant Cyffredinol	10,000	10,000	10,000	10,000

Ar adeg 'sgwennu'r adroddiad mae'r Canghellor wedi argymhell rhewi cyflogau (heblaw am £250 ychwanegol i bawb ar gyflog llai na £24,000) am 2021/22 ond nid yw'r cyflogwyr na'r undebau, hyd yma, wedi cytuno. Felly mae darpariaeth cyfystyr a chynnydd 1% (£38,000) wedi ei gynnwys 'wrth gefn' yng nghyllideb 2021/22. Defnyddir rhagolwg chwyddiant cyflogau o 2% y flwyddyn wedi hynny.

Mae'r ffigwr chwyddiant cyffredinol wedi ei gadw ar £10,000.

4.7 **Pwysau na ellir ei osgoi:**

Mae'r canlynol wedi'u nodi fel pwysau na ellir ei osgoi ar yr Awdurdod:

2021/22 Mae'r setliad drafft yn gynydd o 10% (£499,368) yn rhoi gwarged cyllideb o £476,251.

Mae targedau incwm y Canolfannau Gwybodaeth a meysydd parcio wedi eu cynnal ar yr un lefel â chyllideb 2020/21. Mae yna hyblygrwydd wedi ei adeiladu i mewn i gyllideb incwm Plas Tan y Bwlch, ond yr Ysgwrn wedi ei gadw ar lefel blwyddyn arferol. Mae'n anorod y bydd gostyngiad yn yr incwm oherwydd cyfyngiadau Cofid-19, er bod disgwyl i fwy o bobl gymryd eu gwyliau yn y DU. Disgwylir i ganran o'r gwarged yn y gyllideb gael ei gadw fel darpariaeth am y lleihad hwn a all fod cymaint â £500,000 dros y flwyddyn.

2022/23 Nid oes setliad grant dangosol. Yr unig bwysau sy'n hysbys ydyw chwyddiant ond ni wyddom maint chwyddiant cyflogau. Bydd y costau "un tro" (£70,000) ar gyfer 2021/22 yn cael eu gwrthdroi a'r gyllideb ncwm rhent Hafod Eryri (£55,000) yn cael ei ail-sefydlu.

Fel a nodwyd eisoes, at ddiben y papur hwn ystyrir posibilrwydd na fydd y cynnydd Grant Parc Cenedlaethol £499,368 yn 2021/22 yn barhaol, felly gwrthdroir hwnnw erbyn 2022/23, ynghyd â'r llinell gwariant "un tro" £476,251.

2023/24 Nid oes setliad grant dangosol. Yr unig bwysau arall sy'n hysbys yw chwyddiant. Bydd prisiad actiwaraidd newydd (pob 3 blynedd) ar y gronfa bensiw ac felly cyfraniad pensiw cyflogwr diwygiedig yn weithredol yn y flwyddyn ariannol hon. Gall y cyfraniad pensiw gynyddu neu leihau, ond ni fydd yn hysbys cyn hydref 2022.

2024/25 Nid oes setliad grant dangosol. Yr unig bwysau arall sy'n hysbys yw chwyddiant.

Tra'n cydnabod cyfrifoldeb yr Awdurdod i gynnal yr adeilad a gerddi cofrestredig ym Mhlas Tan y Bwlch, mae'r trefniadau "cynnal gwasanaeth" presennol yn rhai dros dro, gan nad yw cynnal busnes gwely a brechwast gyda'r tebygrwydd o ddefnydd arian cyhoeddus o fewn cwrpawd amcanion gwaith yr Awdurdod. Nid oes amserlen wedi ei osod ar y sefyllfa.

4.8 Mesurau Effeithlonrwydd wedi'u Cynllunio / Incwm:

O ran gwariant, mae goblygiad pandemig Covid-19 yn golygu cynnydd mewn costau glanhau am 2021/22 o leiaf. Mae'r costau hyn wedi'u adnabod fel "un-tro" hyd nes bydd y sefyllfa yn gliriach.

O ran incwm, disgwylir y bydd Hafod Eryri yn ail-agor yn 2022/23, fyddai'n golygu £55,000 ychwanegol i'r gyllideb incwm.

4.9 Cronfeydd Wrth Gefn:

Cyflwynir adolygiad blynyddol o gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod i gyfarfod o'r Awdurdod. Mae adolygiad eleni wedi ei gynnwys yn yr adroddiad ar Gyllideb Sylfaenol 2021/22 ar agenda Awdurdod Rhagfyr.

Mae gan yr Awdurdod 14 cronfa wrth gefn sef:

Cyfrif Wrth Gefn	31/3/2020	Cyfredol	31/3/2021 (amcan)
	£'000	£'000	£'000
Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy	164	143	164
Cronfa Adran 106	240	240	220
Cronfa Grantiau Refeniw	1,720	1385	1,898
Cronfa Grantiau Cyfalaf	2,257	917	2,267
Cronfa Rheoli Asedau	234	205	234
Cronfa Ymchwiliad Cyhoeddus	225	225	225
Cronfa Arian Cyfatebol	1,063	803	837
Cronfa Llithriad	373	323	373
Cronfa Prosiectau	404	404	485
Cronfa Isadeiledd Yr Wyddfa	56	56	56
Cronfa Risgiau Penodol	424	424	457
Cronfa Gwynwch Staff	120	120	120
Cronfa Risgiau Masnachol	100	100	100
Cronfa Refeniw Gyffredinol	659	659	264
Cyfanswm	8,039	6,004	7,700

'Rydym yn dal i ddisgwyl penderfyniad ar achos Hillside, Aberdyfi, felly nid yw'r uchod yn cynnwys unrhyw amcan o'r canlyniad.

Yn sgîl y cyfnod clo ychwanegol a'r cyfyngiadau'n ymestyn ymhellach na ragwelwyd adeg Awdurdod Rhagfyr, mae amcan colledion pellach o £166,000 wedi'i ychwanegu i'r diffyg £228,600 a ragwelwyd am 2020/21 yn Rhagfyr.

Mae'r Awdurdod yn cynnal adolygiad ffurfiol o'i gronfeydd wrth gefn bob blwyddyn, er mwyn sicrhau bod adnoddau priodol ar gael.

4.10 Setliadau Grant Parc Cenedlaethol:

Fel a nodir uchod disgwylir i'r ffigwr setliad Grant Parc Cenedlaethol ddangos cynnydd o 10% ar gyfer 2021/22, sy'n rhoi cyfanswm grant ac ardoll o £5,493,051, gyda'r cafeat mai ffigwr drafft ydyw, ac felly gall newid. Mae hwn yn gynydd o £499,368 ar £4,993,683 yn 2020/21.

Yng nghyd-destun diffyg ffigyrau dangosol gan Lywodraeth Cymru, dyma bosibiliadau o ran cynnydd / gostyngiad grant craidd dros y dair blynedd olynol:

Newid mewn cyllid Grant Parc Cenedlaethol ac ardoll	2022/23	2023/24	2024/25
	(£)	(£)	(£)
+10%	549,310	494,370	444,940
+5%	274,650	260,920	247,870
+2.5%	137,330	140,760	144,280
+1%	54,930	55,480	56,030
0%	0	0	0
-1%	-54,930	-55,480	-56,030
-2.5%	-137,330	-140,760	-144,280
-5%	-274,650	-260,920	-247,870
-10%	-549,310	-494,370	-444,940

4.11 Effeithiau cronrus:

Mae'r tabl isod yn nodi effaith cronrus yr holl ffactorau yn ogystal â'r newid mewn grant, sef: pwysau chwyddiant, ymrwymadau na ellir eu hosgoi, mesurau effeithlonrwydd wedi'u cynllunio, a chynhyrchu incwm yn erbyn gwahanol ddiffygion ariannu am gyfnod o 3 blynedd:

Newid mewn grant ac ardoll	2022/23	2023/24	2024/25	Cyfanswm
	(£)	(£)	(£)	(£)
+10%	600,188	515,240	574,660	1,690,088
+5%	325,536	199,390	212,800	737,726
+2.5%	188,213	51,760	54,280	294,253
+1%	105,813	-33,520	-33,970	38,323
0%	50,883	-89,000	-90,000	-128,117
-1%	-4,047	-143,380	-143,840	-291,267
-2.5%	-86,447	-222,890	-220,550	-529,887
-5%	-223,767	-349,920	-337,870	-911,557
-10%	-498,427	-583,370	-534,940	-1,616,737

Noder fod y rhagolwg presennol ar gyfer 2020/21 yn dangos gorwariant ar y gyllideb, oherwydd cost diswyddiadau Plas Tan y Bwlch a goblygiadau'r pandemig.

I'r dyfodol, ni ellir llwyr ddiystyru'r holl ystod eang o bosibiliadau uchod, yng nghydestun 'Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr' Llywodraeth San Steffan cyn 2022/23, ond tybir y bydd canlyniad agosach at y llwybr canol yn fwy tebygol.

5. BLAENORIAETHAU GWASANAETH AC EGWYDDORION GWEITHREDU:

5.1 Blaenoriaethau Gwasanaeth:

Mae'r Awdurdod wedi adolygu a mabwysiadu ei flaenoriaethau gwasanaeth ac egwyddorion gweithredu i'w gynorthwyo mewn hinsawdd ariannol heriol. Blaenoriaethau gwasanaeth yr Awdurdod yw:

- Sicrhau bod yr amcanion yng Nghynllun Rheoli'r Parc yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus gennym ni ein hunain, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid er mwyn gwella cyflwr y Parc;
- Sicrhau bod gan y swyddogaeth gynllunio statudol ddigon o adnoddau a'i bod yn cael ei rheoli'n effeithiol er mwyn bodloni polisiau cenedlaethol, disgwyliadau cwsmeriaid ac yn cefnogi cymunedau cynaliadwy;
- Dod o hyd i ffrydiau incwm newydd i gefnogi pwrpasau'r Parc a'r Awdurdod.
- Sicrhau ein bod yn ymwneud yn llawn â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn eu cyflawni;
- Dangos manteision Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn lleol ac yn genedlaethol o ran rheoli lle mor arbennig ag Eryri ar gyfer nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Amddiffyn ein staff, predswylwyr, defnyddwyr a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol rhag lledaenu firws Cofid-19 ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.
- Sicrhau fod staff ac aelodau'n cael cefnogaeth ddigonol yn eu trefniadau gweithio mewn cyfnod o'r fath a bod lles staff yn cael ei gefnogi.
- Mynd i'r afael â'r anghenion gweithredol a'r pwysau ariannol sy'n deillio o gyfyngiadau a heriau gweithredu mewn amgylchedd heriol a'r mesurau gofynnol wrth ddelio â phandemig Cofid-19.

5.2 Egwyddorion Gweithredu:

Egwyddorion gweithredu'r Awdurdod (yn unol â rhan 3 o'r Rhaglen Waith Corfforaethol presennol) yw:

- Rôl alluogi â llai o bwyslais ar berchnogaeth a rheolaeth;
- Osgoi dechrau prosiectau sydd â rhwymedigaethau cynnal a chadw hirdymor;
- Annog a galluogi cymunedau lleol i reoli a chymryd cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau yn eu hardaloedd;
- Defnyddio cyfryngau electronig fel y brif ffordd o ddarparu gwasanaethau a gwybodaeth;

- Agwedd strategol tuag at dwristiaeth gynaliadwy, addysg amgylcheddol a wardeinio;
- Dod o hyd i ffrydiau incwm newydd i gefnogi pwrpasau'r Parc a'r Awdurdod.

Dylai'r Awdurdod wneud yn siŵr bod pob un o'r gweithgareddau y mae'n eu cynllunio yn gyson â'r uchod, ac mai dyma'r paramedr cyntaf i'w ddefnyddio wrth osod y gyllideb flynyddol.

Mae'r modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei fusnes yn ystod y cyfnodau economaidd hyn yr un mor bwysig ac yng nghyd-destun hyn bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu'r dull gweithredu a ganlyn:

- ymgorffori datblygiad cynaliadwy yn ddyfnach fyth fel egwyddor graidd sy'n arwain ein holl waith;
- trwy weithio gyda'n partneriaid, mabwysiadu rôl o alluogi a hwyluso wrth gyflawni ein pwrpasau;
- gwerthuso holl ymrwymadau ariannol tymor hir ac ymrwymadau eraill ar gyfer pob prosiect posibl;
- gweithio gyda'n cymunedau wrth gyflawni gweledigaeth yr Awdurdod;

5.3 **Strategaeth ariannol:**

Mae'r Awdurdod wedi derbyn arian grant ychwanegol yn 2020/21 (£275,214 referniw a £314,530 cyfalaf) i'w gwario erbyn 31/3/2022 ynghyd ag arian grant T.C. Ll. C. (£1,541,600) ac yn ôl y wybodaeth presennol, cynnydd 10% yn y setliad Grant Parc Cenedlaethol ar gyfer 2021/22. Yn ogystal disgwylir dyfarnu arian T.C.Ll.C. pellach yn 2021/22 i'w wario yn y flwyddyn ariannol honno.

Yn gyffredinol mae'r targedau incwm ar gyfer 2021/22 wedi eu cynnal ar yr un lefel â 2020/21. Gyda'r tebygrwydd o gyfyngiadau Cofid-19 yn parhau am rhai misoedd yn 2021/22, a'r posibilrwydd o ail-gyflwyno cyfyngiadau yn ystod y gaeaf, bydd angen darpariaeth ar gyfer y colledion incwm (net o arbedion gwariant).

Gan nad oes sicrwydd fod y cynnydd 10% yn y setliad grant parc cenedlaethol yn barhaus, bydd rhaid aros tan hydref / gaeaf nesaf cyn derbyn cadarnhâd ynglyn â hyn. O ganlyniad, mae'n rhaid gochel rhag ymrwymo i wariant ychwanegol parhaol yn y cyfamser.

Mae'r arian ychwanegol yn dod â gwaith gweinyddu ychwanegol gydag o. Felly, mae angen ystyried oblygiadau'r pwysau gwaith ychwanegol ar rai o wasanaethau'r Awdurdod.

5.4 Camau Perthnasol i'r dyfodol:

- Adolygu'r CATC wrth i wybodaeth berthnasol fod ar gael i'r Awdurdod.
- Cyd-weithio gyda Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau parhad o'r cynnydd 10% yn y Grant Parc Cenedlaethol ar gyfer 2022/23 a tu hwnt.
- Cyd-weithio gyda Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymrwymiad ar gyllidebau dangosol yn y dyfodol.
- Sicrhau fod yr Awdurdod yn cyflawni ar ei oblygiadau statudol.
- Sefydlu llinellau "un tro" yng nghyllideb 2021/22 ar gyfer defnydd y gwarged cyllideb 2021/22 (£476,251) a'r grant cyfalaf ychwanegol 2020/21 (£314,530) o dan ofal y Tîm Rheoli.
- Sicrhau fod datrys ar faterion gallu i gyflawni ar ddyraniadau cyfalaf.
- Sicrhau defnydd llawn o'r adnodd ychwanegol a gynigir gan Llywodraeth Cymru trwy'r dyraniad cyllid T.C.LI.C yn 2021/22. Disgwylir i'r dyraniad fod oddeutu £1m i Awdurdod Parc Eryri.

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	3 Chwefror 2021
TEITL	ADRODDIAD BLYNYDDOL YR YSGWRN
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol
PWRPAS	Diweddaru Aelodau ar gynnydd yn Yr Ysgwrn

1.0 TROSOLWG

- 1.1 Bu 2020 yn flwyddyn eithriadol o anodd oherwydd y pandemig Covid 19 a bu'n rhaid gohirio rhaglen gyfan o weithgareddau.
- 1.2 Yn sgil y cyfnod clo, caewyd y safle. Manteisiwyd ar y Cynllun Gwarchod Swyddi ac ar ganol mis Awst, llwyddwyd i ail agor y safle ar raddfa rhan amser, ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn i hyd at ddau gartref y dydd. Rhoddwyd system archebu ar-lein llwyddiannus mewn lle. Bu'n rhaid cyfyngu ar y niferoedd er mwyn dilyn rheolau Llywodraeth Cymru ar gyfer atal lledaeniad Covid 19 ac addasu'r drefn fel roedd y rheolau yn newid. Roedd adborth ymwelwyr yn nodi eu bod yn teimlo'n ddiogel.
- 1.3 Gwahoddwyd gwirfoddolwyr yn ôl i'r safle ond yn ddealladwy (o edrych ar y demograffig a'r risg uwch mae Covid 19 yn ei bery i grŵp oedran hŷn), penderfynodd bob un i beidio dychwelyd yn syth. Mae swyddogion yn parhau i ymgysylltu gyda gwirfoddolwyr ac ym mis Rhagfyr, llwyddwyd i gynnal dangosiadau o ffilm Noson Garolau'r Ysgwrn 2020 ar eu cyfer.
- 1.4 Yn ddealladwy, mae rheolau Llywodraeth Cymru er mwyn atal lledaeniad Covid 19 a gwarchod iechyd cyhoeddus wedi arwain at newid sylfaenol yn arferion ymweld â safleoedd fel Yr Ysgwrn. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn rhybuddio na fydd y sefyllfa'n llwyr sefydlogi tan fis Ebrill 2022.
- 1.5 Mae'r wybodaeth gyfredol yn nodi na chaiff amgueddfeydd ac atyniadau dan do ganiatâd i ail agor nes bod y cyfyngiadau yn gostwng i Haen 2. Does dim rhagolwg ar gyfer pryd fydd hynny'n digwydd eto.
- 1.6 Mae sefyllfa'r pandemig Covid 19 yn newid yn rheolaidd ac er bod brechiadau yn cael eu cynnig bellach, mae'n addas cynllunio'n ddarbodus ar gyfer 2021.

2.0 CRONFA DREFTADAETH Y LOTERI GENEDLAETHOL

- 2.1 Bu'r Gronfa yn hynod gefnogol yn sgil bygythiad Covid 19 a rhoddwyd estyniad amser i'r cynllun tan Chwefror 28ain, 2021.

- 2.2 Mae'r gwaith ar y cynllun a'r hawliad terfynol i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn dirwyn i ben.
- 2.3 Fel rhan o'r cynllun comisiynwyd dau adroddiad, sef Adroddiad Gwerthuso a Chynllun Datblygu Cynulleidfa a gyflwynwyd i Fwrdd Yr Ysgwrn ym mis Tachwedd 2020. Mae'r adroddiad Gwerthuso yn ofynnol fel rhan o gynllun y Gronfa Dreftadaeth ac mae'n ddefnyddiol ar gyfer adlewyrchu ar lwyddiannau a gwersi'r cynllun a blaengynllunio. Gresyn i'r pandemig Covid 19 ddigwydd mor fuan wedi comisiynu'r Cynllun Datblygu Cynulleidfa. Er gwaethaf safon uchel y gwaith, mae'r cynllun wedi dyddio'n gyflym ond mae'n gosod fframwaith defnyddiol ar gyfer cynllunio, er bod y realiti yn debygol o fod yn dra gwahanol, am gyfnod o leiaf.
- 2.4 Daw'r cynllun Cronfa Dreftadaeth i ben ar 28.2.2021. Mae'r dibenion cymeradwy wedi'u cyflawni a'r gyllideb yn wastad.

3.0 GWEITHGAREDDAU

- 3.1 Trefnwyd rhaglen ar gyfer 2020 yn cynnwys diwrnod gweithgareddau i deuluoedd a phobl ifanc, gweithgareddau wedi'u targedu at y gymuned leol, teithiau thematig, gweithdai celfyddydol a llesiant a gweithgareddau tymhorol. Er mai canslo fu hanes y mwyafrif o'r digwyddiadau, llwyddwyd i gynnal a gwreiddu rhai gweithgareddau a phrosiectau digidol, sef:
- Ymgyrchoedd amgueddfaol ar y cyfryngau cymdeithasol, e.e. #museumsuncovered a'r Diwrnod Meddiannu Digidol.
 - Creu fersiwn rithiol o sioe Mewn Cymeriad Hedd Wyn gyda Gŵyl Hanes Cymru. Mae'r fersiwn newydd yn adnodd addysg ddwyieithog a BSL.
 - Ffilm Noson Garolau'r Ysgwrn gyda chefnogaeth Art Fund a Llywodraeth Cymru. O fewn deunaw awr i ddarlledu'r ffilm ar y cyfryngau cymdeithasol ar ddechrau Rhagfyr, roedd dros ddwy fil o bobl wedi'i gwyllo. Erbyn 20.1.21, roedd 17,000 o bobl wedi ei gwyllo.
 - Sesiwn Enwau Lleoedd Meirionnydd gan Myrddin ap Dafydd a ffilm Straeon Calan Gaeaf gan Siwan Llynor, gyda chefnogaeth Gŵyl Amgueddfeydd Cymru. Cafwyd 49 o fynychwyr i'r digwyddiad.
 - Arlwy Nadoligaidd, sef noson werinol 'Nadolig y Cymry' gydag Arfon Gwilym a Sioned Webb (mynychwyd gan 35 person, sioe Nadolig 'Yr Heriau Hud' (mynychwyd gan 36 o blant) a ffilm straeon y Nadolig gan Siwan Llynor.
 - Dros y gaeaf, bydd Siwan Llynor yn parhau gyda'i chyfres o ffilmiau gyda straeon Santes Dwynwen a Gŵyl Ddewi. Caiff rhain eu hariannu drwy grant Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru (SLSP).
 - Ar ddiwedd Chwefror, bydd cwmni Lincoln Conservation yn traddodi sgwrs Zoom am orffeniadau addurniadol (gwaith paent a phapur wal) Yr Ysgwrn.

4.0 YSTADEGAU

- 4.1 Yn 2019, rhoddwyd cynllun mewn lle i godi prisiau mynediad Yr Ysgwrn ar gyfer 2020. Oherwydd y niferoedd ymwelwyr eithriadol o isel eleni, bu'r cynnydd prisiau yn gymorth i gynyddu mymryn ar yr incwm.
- 4.2 Roedd cyfanswm ymwelwyr Yr Ysgwrn o Ebrill-Hydref 2020, 96.97% yn is na'r un cyfnod yn 2019-20 a gwerthiannau'r un cyfnod 97.95% yn is na'r un cyfnod y llynedd.

5.0 Y SEFYLLFA ARIANNOL

- 5.1 Bu sefyllfa ariannol 2020-21 yn heriol. Fel swyddogion, rydym yn ymfalchïo bod y safle wedi'i ail agor yn llwyddiannus ar ganol mis Awst, yn gydamserol â rhai safleoedd Amgueddfa Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac yn gynt na rhai o safleoedd y cyrff hyn ac amgueddfeydd eraill.

Rydym yn hyderus bod hynny'n gam adeiladol o safbwynt moral staff, marchnata a cheisio meithrin hyder y cyhoedd yng ngallu'r Ysgwrn i baratoi, addasu ac ymdopi gyda bygythiad Covid-19. Serch hynny, mae'n rhaid derbyn nad oedd y cam i ail agor y safle yn ariannol enillfawr yn y byr dymor.

5.2 Bu'r Ysgwrn yn ffodus o gefnogaeth ariannol drwy amryfal ffynonellau, sy'n debygol o olygu ein bod yn cwblhau'r flwyddyn ariannol o fewn ein cyllideb.

6.0 CYMORTH GRANT

6.1 Llwyddodd Yr Ysgwrn i gyflwyno cyfres o geisiadau grant llwyddiannus yn ystod 2020/21 i'r cronfeydd canlynol:

Enw'r grant	Gan bwy?	Grant ar gyfer beth?	Y swm a ddyfarnwyd	Wedi cwblhau?
Cronfa Cydnerthedd Diwylliannol	Llywodraeth Cymru	Costau ail agor Yr Ysgwrn	£2,980	✓
Cronfa Cydnerthedd Diwylliannol	Llywodraeth Cymru	Adfer rhai o gostau rhedeg Yr Ysgwrn a phrosiectau a gweithgareddau dros aeaf 2020/21	£30,740	Ar y gweill. I'w gwblhau erbyn 31.3.21
Grantiau Adfer Covid-19	Art Fund	Cwrdd ag anghenion cynulleidfaoedd a datblygu cynnig cynaliadwy. Roedd y grant hwn ar gael i amgueddfeydd llywodraeth leol nad oedd yn gymwys am gymorth brys arall. Cyflwynwyd cais am gefnogaeth i gynnal noson garolau rithiol.	£1,000	✓
Grant Cymorth Covid-19 APCE	Llywodraeth Cymru	Colled incwm	£11,690	✓
Gŵyl Amgueddfeydd Cymru	Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru	Cynnal gweithgareddau yn ystod yr ŵyl (hanner tymor Hydref) sef sgwrs enwau lleoedd gan Myrddin ap Dafydd a ffilm o straeon Calan Gaeaf traddodiadol gan Siwan Llynor,	£600	✓

Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy	Llywodraeth Cymru	Twristiaeth gynaliadwy gan gynnwys tuag at welliannau isadeiledd a chynlluniau gweithgaredd gan gynnwys gosod boeler nwy gwasgedd isel wrth gefn, gwelliannau i'r ardal cegin a gweini, uwchraddio'r snyg, hyrwyddo taith lesiant, llunio rhaglen weithgareddau, arwyddion, gofod digwyddiadau a chwarae tu allan ac arddangosfa.	£155,000	Ar y gweill, i'w gwblhau erbyn 19.3.21.
---	----------------------	---	----------	---

7.0 2021 A THU HWNT

7.1 STAFFIO

- 7.1.1 Pan ail agorwyd Yr Ysgwrn ym mis Mehefin 2017 tan 2020/21, arianwyd swyddi drwy grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Addaswyd y model staffio yn ystod y cyfnod hwn ond mae angen adolygu eto er mwyn sicrhau bod y costau staffio yn gynaliadwy.
- 7.1.2 Daeth cyfle i wneud hyn rŵan yn sgil ymadawiad y Rheolwr Safle yn Nhachwedd 2020. Cyn y pandemig Covid 19, roedd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol wedi creu cynlluniau drafft ar gyfer modelau staffio posib a fyddai'n newid y pwyslais o gynnal y safle i ymgysylltu gyda chynulleidfaoedd targed a chynyddu incwm.
- 7.1.3 Byddai hyn yn cael ei wireddu drwy benodi Rheolwr Profiad Ymwelwyr a fyddai'n gyfrifol am ymgysylltu gydag a chydlynu ymweliadau grŵp, gwirfoddolwyr a chefnogi Rheolwr Marchnata llawrydd i ddatblygu rhaglen ddigwyddiadau flynyddol. Byddai'r tîm blaen tŷ yn cael ei arwain gan Oruchwyliwr a fyddai'n gyfrifol am rotas, archebu nwyddau a chydlynu teithiau cyffredinol.
- 7.1.4 Mae'r strwythur staffio yma wedi' gostio a'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2021/22. Serch hynny, gan nad oes awgrym ar hyn o bryd bydd teithio grŵp (ysgolion, cymdeithasau a grwpiau teithio) yn cael ei ganiatau yn fuan, a rheiny'n gynulleidfaoedd targed i'r Ysgwrn, ni ellir cyfiawnhau penodi swyddog i'r rôl Rheolwr Profiad Ymwelwyr am y tro.
- 7.1.5 Serch hynny, er mwyn gwarchod cyllideb staffio'r Ysgwrn ar gyfer y dyfodol ôl-Covid 19, rhaid gofyn am ganiatâd Aelodau i gadw'r gyllideb, gyda'r ddealltwriaeth na chaiff ei gwario hyd nes bydd y sefyllfa'n sefydlogi a bod cynhyrchu incwm digonol yn fwy tebygol. Bydd hynny'n golygu arbediad tymor byr mewn costau, er mwyn gwneud yn iawn am ddiffyg incwm.

7.2 GWEITHGAREDDAU

7.2.1 Mae rhaglen wedi'i chynllunio ar gyfer blwyddyn galendr 2021.

7.2.2 Os bydd y pandemig yn caniatáu, mae opsiwn i gynnal y gweithgareddau o'r haf ymlaen ar y safle, gyda chynllun wrth gefn yn bodoli ar gyfer pob gweithgaredd er mwyn osgoi'r angen i ganslo oherwydd y pandemig.

7.2.3 Bydd sesiynau misol i wirfoddolwyr yn cael eu cynnal ar y safle, gan gadw at reolau Llywodraeth Cymru. Oherwydd y pandemig, mae'r rhain wedi'u gohirio am y tro.

7.2.4 Byddwn yn cynnal cyfres o weithgareddau a phrosiectau a fydd yn ymgysylltu'n benodol gyda'r gymuned leol er mwyn ail sefydlu a meithrin berthynas honno. Mae'r rhain yn cynnwys prosiect drama rhithiol, hwylddydd Gŵyl Ddewi a Gŵyl Goed Nadolig Trawsfynydd.

8.0 CYLLIDEB 2021/22

8.1 Mae'r tabl isod yn dangos cyllideb arfaethedig ar gyfer 2021/22.

8.2 Mae'r gyllideb yn amcan costau staffio agor cyfartaledd o bum niwrnod yr wythnos rhwng y Pasg a diwedd hanner tymor mis Hydref ac y bydd Yr Ysgwrn yn cyflawni ei dargedau incwm presennol.

	2020/21	2021/22
GWEITHWYR	(Rhan o gostau staffio'r flwyddyn hon yn dod o'r grant Loteri)	
Cyflogau	£37,080	£43,470
Yswyriant Gwladol	£1,740	£1,310
Pensiynau	£7,350	£8,620
Ffioedd Proffesiynol	£0	£0
Yswyriant Gweithwyr	£0	£0
ADEILADAU A CHYNNAL TIR	0	0
Cynnal a chadw	£2,100	£2,310
Cynnal tiroedd	£1,500	£1,650
Rhybudd tan ac ymyrrwr	£2,260	£2,480
Trydan	£5,860	£7,030
Trethi	£1,860	£1,930
Gwastraff masnachol	£650	£710
Costau gwresogi – sglodion coed	£5,700	£3,840
Costau gwresogi – glo	£570	£630
Gwagio tanc carffosiaeth	£0	£0
Gwasanaeth Dwr	£720	£800
Defnyddiau glanhau	£400	£600
Rhenti	£0	£0
Boeler LPG	£0	£2,000
TRAFNIDIAETH	£0	£0
Lwfansau Ceir	£1,000	£1,100
Cynnal cerbyd Yr Ysgwrn	£1,040	£1,200

CYFLENWADAU A GWASANAETHAU	£0	£0
Prynu gwasanaeth i mewn (rheolwr marchnata llawrydd)	£0	£9,000
Dodrefn ac offer	£350	£390
Cynnal offer EPOS	£100	£950
Nwyddau siop i'w hailwerthu	£5,500	£6,050
Nwyddau caffi i'w hailwerthu	£3,500	£3,850
Rheoli Pla	£480	£530
Post	£50	£50
Ffôn	£1,410	£1,600
Amrywiol	£600	£600
Costau banc	£620	£680
Cadwraeth casgliad	£750	£750
Tanysgrifiadau Aelodaeth	£160	£180
Cynhaliaeth	£300	£330
Cronfa Trafnidiaeth Ysgolion	£1,000	£1,000
Marchnata	£1,000	£1,000
Perthynas gyhoeddus	£300	£1,430
Gweithgareddau	£560	£620
Cyfanswm Costau (£)	£86,910	
Cyfraniadau	£110	£0
Gwerthiannau siop	£11,700	£11,700
Cymhelliad Gwresogi Adnewyddadwy	£4560	£600
Tariff Trydan (byngalo)	£790	£790
Incwm Caffi Yr Ysgwrn	£10,550	£10,550
Ffioedd Mynediad	£32,750	£32,750
Rhent Tir	£4,000	£3,800
Cyfanswm Incwm	-£64,460	-£60,190
Cyllideb net	£22,450	£48,940

9.0 ORIAU AGOR

- 9.1 Cyn bygythiad y pandemig, y bwriad ar gyfer 2020 oedd agor 7 niwrnod yr wythnos o'r Pasg tan ddiwedd Hydref ac agor drwy apwyntiad i grwpiau yn ystod y gaeaf.
- 9.2 Mae'r sefyllfa yn parhau yn ansefydlog felly mae'n amhosib cynllunio ar hyn o bryd ar gyfer union strwythur agor y safle.
- 9.3 Bydd cyflogi dau aelod o staff tymhorol yn costio £196.95 y dydd, sydd gyfwerth â'r incwm o werthu 27 tocyn oedolyn, sy'n golygu cynnal tair taith gyda deg person y dydd, er mwyn talu'r costau staffio yn unig. Bydd incwm caffi a siop yn incwm ychwanegol i hyn.

10.0 CASGLIAD

- 10.1 Bu'r flwyddyn yn un heriol oherwydd effaith y pandemig Covid 19. Mae'r incwm masnachol isel yn adlewyrchiad o effaith cyfyngiadau ar rediad y safle gan na fu modd croesawu pobl mewn grwpiau o'r maint arferol, boed yn deuluoedd, yn griwiau ffrindiau neu yn grwpiau ffurfiol.

- 10.2 Dengys hyn carfan mor bwysig o gynulleidfa'r Ysgwrn ydi grwpiau ffurfiol, sef ysgolion, cymdeithasau a chwmnïau teithio grŵp.
- 10.3 Mae'n sicr bod rhai ymwelwyr cyffredinol wedi cadw draw oherwydd y pandemig a nerfuswydd o safbwynt iechyd personol a chyhoeddus.
- 10.4 Diolch i gefnogaeth ariannol drwy'r cynllun gwarchod swyddi a cheisiadau llwyddiannus i wahanol gronfeydd grant, mae'r sefyllfa'n well na'r rhagolygon ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon yn sgil y cyfnod clo cyntaf.
- 10.5 Mae'r ymateb i weithgareddau rhithiol – cyhoeddus ac i ysgolion – wedi bod yn gadarnhaol ac mae hynny'n argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol a chwant y cyhoedd i ymgysylltu â'r Ysgwrn.
- 11.0 **ARGYMELLIAD:**
1. I Aelodau drafod cynnwys y papur.
 2. I Aelodau gyfrannu unrhyw syniadau neu ganfyddiadau o sefyllfa gyfredol Yr Ysgwrn a sut gallwn baratoi ar gyfer y dyfodol, ôl-Covid 19.
 3. I Aelodau fynegi barn a thrafod opsiynau ar gyfer modelau oriau agor ar gyfer 2021.

ADRODDIAD O'R GWEITHGOR AELODAU A GYNHALIWYD AR 2 RHAGFYR, 2020
PRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cyng. Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes (Cadeirydd), Judith Humphreys, Edgar Owen, John Pughe Roberts;

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyng. Philip Capper, Wyn Ellis Jones;

Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Mr. Neil Martinson, Mr. Owain Wyn;

Swyddogion

Emyr Williams, G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Dafydd Edwards, Emyr Roberts, Helen Pye, Angela Jones, Adam Daniel, Edward Jones, Catrin Glyn, Geraint Evans, Anwen Gaffey;

1. **Ymddiheuriadau**

Cyng. Freya Bentham, Ifor Glyn Lloyd, Elfed Roberts, Gethin Williams;

2. **Datgan Budd**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion Gweithgor yr Aelodau a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2020 a llofnododd y Cadeirydd hwy fel gwir gofnod.

4. **Adolygiad o Gronfeydd Wrth Gefn**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid i ymgynghori ag Aelodau ar ddigonolrwydd amrywiol gronfeydd wrth gefn penodol yr Awdurdod ac i ystyried cyfleoedd i dynnu i lawr o'r cronfeydd wrth gefn hynny a / neu i ailddyrranu rhyngddynt.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid ei adroddiad a'i gefndir, gan gynnwys manylion yr egwyddorion cyffredinol a'r polisi cyfredol ar gyfer cronfeydd wrth gefn fel y'u mabwysiadwyd ym mis Hydref 2019.

Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn: -

- cyngorodd y Prif Swyddog Cyllid fod Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod yn cynnwys gofyniad i drosglwyddiadau dros £30,000 gael eu hadrodd i gyfarfod o'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. Argymhellodd yr aelodau y dylid cynnwys y gofyniad hefyd ym Mholisi Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod.
- nododd y Pennaeth Cyllid, er bod codiad cyflog chwyddiant wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2021/22, efallai na fydd ei angen mwyach. Roedd yn rhagweld y byddai diffyg o oddeutu £228K yng nghyllideb 2021/22 o hyd, ac y byddai hyn yn cael ei ariannu o'r Gronfa Balansau Cyffredinol.
- mewn ymateb i gwestiwn, rhoddodd y Pennaeth Cyllid eglurhad pellach ar y cronfeydd Grant Refeniw a Chyfalaf ar linellau 3 a 4 a chadarnhaodd fod y Gronfa Ariannu Cyfatebol ar linell 8 wedi'i dyrannu'n llawn. Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid fod y modd y mae Llywodraeth Cymru yn targedu cronfeydd ar gyfer prosiectau Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ddal symiau mawr wrth gefn (llynellau 3 a 4) a'r Gronfa Ariannu Cyfatebol oedd cyfraniad yr Awdurdod (llynell 8).

- gofynnodd Aelod a oedd Llywodraeth Cymru yn cynnwys costau ymadael staff o fewn cynlluniau grant. Dywedodd y Prif Weithredwr mai ychydig iawn o'r prosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys costau ymadael oherwydd natur fer y prosiectau, er bod swyddogion yn gwerthuso'r costau hyn cyn dechrau unrhyw brosiect. Teimlai'r Aelod y dylai'r Awdurdod barhau i bwysu ar Lywodraeth Cymru ar hyn.
- gofynnodd Aelod am yr ansicrwydd ynghylch costau ym Mhlas Tan y Bwlch a dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, er bod rhai diswyddiadau wedi'u cwblhau, bod swyddogion ar hyn o bryd yn paratoi disgrifiad swydd ar gyfer rôl newydd y Rheolwr Tŷ. Yn dilyn y penodiad hwn, ac i ganiatáu i'r Rheolwr Tŷ newydd gael mewnbwn i'r broses benodi, bydd y lefelau staff diwygiedig ym Mhlas Tan y Bwlch yn cael eu pennu, a bydd y costau diswyddo / rhyddhau pensiwn yn cael eu nodi.
- cynigiodd Aelod y dylid dyrannu £250k o'r cronfeydd wrth gefn i fynd i'r afael â'r problemau rheoli ymwelwyr a ragwelir y bydd yr Awdurdod yn eu hwynebu o'r Pasg ymlaen. Roedd o'r farn bod angen dechrau trafodaethau heddiw, dyrannu adnoddau i gefnogi staff yn y maes a darparu cefnogaeth economaidd i'r ardal. Dywedodd y Prif Weithredwr fod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo £275k arall i'r Awdurdod mewn cronfeydd refeniw ychwanegol, y bydd 80% ohono'n cael ei ddefnyddio i greu swydd swyddog cyfathrebu pellach, i gefnogi gwirfoddolwyr, i gyflogi pum warden tymhorol ychwanegol, darparu refeniw ychwanegol, cyllid ar gyfer gwasanaeth bws Sherpa, ac i gyflogi swyddog ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth eiddo.
- mewn ymateb i gwestiwn am linellau 5, 12, 13 a 14 yn y tabl cronfeydd wrth gefn yr oedd yr Aelod yn teimlo y dylent i gyd ddod o dan Gronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol, esboniodd y Prif Weithredwr fod y dull adrodd wedi'i gytuno yn dilyn cais gan Aelodau i ddarparu dadansoddiad manwl o'r manylion.
- ystyriodd yr aelodau y cynnig i ddyrannu £ 250k o gronfeydd wrth gefn a daethant i'r casgliad y dylai unrhyw benderfyniad fod yn seiliedig ar angen, ac y dylid sefydlu cost unrhyw gynnig cyn ymrwymo swm penodol. Mewn ymateb, nododd yr Aelod nad oedd hyn yn wir am gronfeydd wrth gefn eraill e.e. y Gronfa Rheoli Asedau, a gofynnodd i'r Aelodau gymeradwyo'r dyraniad yn ddi-oed.
- credai'r Prif Weithredwr y byddai'r ddwy eitem nesaf ar yr agenda yn rhoi mwy o fanylion a gofynnodd i'r Aelodau nodi, er bod yr Awdurdod wedi llwyddo i sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, roedd angen i bartneriaid gyfrannu hefyd.
- Cytunodd yr aelodau fod lefel y cronfeydd wrth gefn yn rhannol oherwydd y ffordd y darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i'r Awdurdod i gyflawni prosiectau ac oherwydd ein bod yn dal i aros i glywed ynghylch y setliad grant sylfaenol ar gyfer 2021/22, roedd yr ansicrwydd yn ddigon o reswm i beidio ymrwymo symiau sylweddol o'r cronfeydd wrth gefn ar yr adeg hon.
- cytunodd y Prif Swyddog Cyllid i nodi'r cais i ail ddyrannu £250k i fynd i'r afael â phryderon sydd a wnelo rheoli ymwelwyr, a dywedodd nad oedd angen gwneud penderfyniad cadarn heddiw, y gellid ail edrych ar y mater yn y gwanwyn, ac erbyn hynny byddai'r Aelodau cael eich hysbysu'n llawn am unrhyw gynigion a'r cyllid sydd ei angen.
- mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Swyddog Cyllid nad oedd unrhyw oblygiadau TAW ar gyfer cronfeydd grant.

PENDERFYNWYD

- 1. nodi'r adroddiad.**
- 2. argymhell bod y gofyniad o ran trosglwyddo arian sy'n werth dros £30,000 fel yr amlinellir yn Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod, yn cael ei gynnwys yn y 'Polisi ar gyfer Cronfeydd Wrth Gefn'.**
- 3. nodi'r sefyllfa ar yr adeg hon ac ystyried ymhellach y cynnig i ddyrannu £250k o'r cronfeydd wrth gefn yn ddiweddarach.**

5. **Adroddiad ar Faterion Parcio : Yr Wyddfa ac Ogwen**

Cyflwynwyd - Adroddiad ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir, y Swyddog Polisi Cynllunio, y Rheolwr Partneriaethau a Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa, mewn ymateb i gynnig a godwyd gan y Cynghorydd John Pughe Roberts mewn perthynas â materion parcio yn ymwneud â'r Wyddfa ac Ogwen.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir y swyddogion a fyddai'n cyflwyno'r adroddiad ar y cyd. Hefyd rhoddodd gefndir a chyd-destun i'r adroddiad ac amlinellodd rôl yr Awdurdod a'i ddibyniaeth ar bartneriaid eraill i helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn. Atgoffodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir yr Aelodau bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiad maes parcio newydd a darllenodd hefyd Bolisi 25 y Cynllun Datblygu Lleol: Parcio Ceir i Ymwelwyr. Gofynnwyd i'r aelodau nodi hefyd o dan Hawliau Datblygu a Ganiateir (para. 5) y caniateir i dirfeddianwyr greu nifer fach o feysydd parcio, a allai weithredu am 28 diwrnod neu lai.

Cyflwynodd Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa gefndir adroddiad Martin Higgitt Associates a'r llinell amser ar gyfer gweithredu'r strategaeth (Atodiad 2) a anfonwyd at yr Aelodau ar wahân. Dywedodd Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa fod swyddogion wedi cyflwyno diweddariadau i'r holl bartneriaid a bod eu hymateb i'r weledigaeth wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Cyflwynodd y Rheolwr Partneriaethau grynoded o'r prosiectau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd a chadarnhaodd yr ymgysylltir â thrigolion a busnesau ym mhentrefi porth Llanberis, Betws y Coed, Beddgelert a Bethesda yn cael ei gynnal yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Byddai'r prosiect i sefydlu system rag-archebu awtomatig canol tymor ar gyfer Pen y Pass a'r prosiect i ddatblygu system fonitro ar gyfer traffig wrth iddynt ddynesu at mewn i ardal y Parc Cenedlaethol ac mewn meysydd parcio hefyd yn cael ei sefydlu erbyn Mawrth 2021.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaeth Wardeiniaid grynoded o'r gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Wardeiniaid a chadarnhaodd y byddai'r cais llwyddiannus i ariannu pum swydd warden tymhorol newydd o fudd i'r gwasanaeth yn 2021.

Cyflwynodd y Pennaeth Ymgysylltu manylion y dull cyfathrebu amlasiantaethol a oedd yn cael ei ddatblygu ar gyfer 2021 a dywedodd fod gwaith yn parhau i ddatblygu cyfathrebu ar gyfer y dyfodol fel yr argymhellwyd gan Martin Higgitt Associates, yn y tymor byr a'r tymor hir.

Yn codi ar hynny, gwnaeth yr Aelodau'r sylwadau a ganlyn:-

- gofynnodd Aelod i'r Awdurdod gytuno i ddatrysiaid syml a chaniatáu i dirfeddianwyr greu meysydd parcio bach ar gyfer twristiaid er mwyn osgoi'r hyn a welwyd dros fisoedd yr haf eleni. Roedd llawer o bethau wedi newid ers mabwysiadu polisi'r Awdurdod, ac roedd y pandemig yn golygu nad oedd yn ymarferol bellach disgwyl i dwristiaid deithio yn glos at ei gilydd ar fysiau i gael eu cludo at Yr Wyddfa ac i Ogwen. Dylid caniatáu i dirfeddianwyr greu meysydd parcio bach dros dro am gyfnodau o oddeutu 4 i 5 mlynedd, a chodi £10 am bob cerbyd ar y defnyddwyr. Yn gyfnewid am hyn, byddai disgwyl i'r dirfeddianwyr ad-dalu'r Awdurdod, e.e. 20% o'r ffi, i fuddsoddi mewn llwybrau troed, Wardeiniaid ychwanegol ac ati.
- roedd swyddogion yn pryderu y byddai rhoi caniatâd ar gyfer parcio tymor byr yn tansilio'r cynlluniau tymor hir strategol a argymhellwyd gan Martin Higgitt Associates. Roedd Martin Higgitt wedi argymhell y dylid symud parcio i ffwrdd o'r ardaloedd lleol i'r pentrefi porth yn y gobaith y byddai hyn yn newid y meddylfryd presennol. Yn ogystal, profwyd bod creu mwy o le parcio yn denu mwy fyth o gerbydau, ac ni fyddai'n mynd i'r afael â'r mater.

- Dywedwyd wrth yr aelodau bod trafodaethau ar y gweill gyda Chyngor Gwynedd i ddarganfod a allai Glyn Rhonwy yn Llanberis ddarparu datrysiad tymor byr i broblemau parcio ym Mhen y Pass ac Ogwen. Dywedodd Aelod o Gyngor Gwynedd efallai na fyddai hyn yn opsiwn gan fod y safle eisoes wedi'i feddiannu.
- mewn ymateb i gwestiwn, dywedwyd wrth yr Aelodau fod gwaith ymgysylltu â chymunedau wedi'i drefnu ar gyfer dechrau mis Ionawr / Chwefror 2021 a bod grwpiau defnyddwyr yn cael eu cynnwys fel rhan o'r gwaith Uwch Gynllunio Cymunedol.
- dywedodd swyddogion fod "system fonitro ysgafn ar adnoddau" yn cael ei gwmpasu ar hyn o bryd gan ymgynghorwyr, a gyflogwyd yn ddiweddar gan Trafnidiaeth i Gymru, i gwmpasu Prosiectau 3 a 4 fel yr amlinellwyd. Cadarnhaodd y Rheolwr Partneriaethau fod disgwyl i'r prosiectau hyn fod yn barod erbyn Mawrth 2021.
- roedd Aelod yn teimlo nad oedd yr adroddiad yn mynd i'r afael â'r cwestiwn o sut y bydd yr Awdurdod yn mynd i'r afael â'r mater hwn o'r Pasg 2021, nid oedd unrhyw ymdeimlad o frys. Dylai'r Awdurdod gymryd mesurau mwy cadarn am gyfnod interim o flwyddyn. Dywedodd yr Aelod y byddai'n rhoi rhai cynigion yn y panel sgwrsio, yn benodol ar gyfer ardal Ogwen, ochr yn ochr â mesurau pellach a awgrymwyd fel parcio ymlaen llaw ar gilfannau'r A5 a sicrhau bod arwyddion addas ar waith ac ati. Roedd Martin Higgitt Associates wedi nodi, bod 45% yn ymwelwyr tro cyntaf â'r ardal, ac roedd gan yr Awdurdod rôl i reoli hyn. Gofynnwyd i Gadeirydd yr Awdurdod baratoi Cynllun Gweithredu ar gyfer cyfarfod nesaf yr Awdurdod i gyflymu'r camau a gynigiwyd ac i gael cefnogaeth partneriaid ar gyfer y gwaith hwn.
- nododd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir yn glir y gallai Aelodau ddiystyru'r Cynllun Datblygu Lleol os oeddent yn teimlo bod ganddynt resymau digonol i wneud hynny, ond yn ei farn ef, nid oedd hyn yn wir, yn enwedig yng nghyd-destun y gwaith a wnaed gan Martin Higgitt Associates.
- roedd y Rheolwr Partneriaethau yn teimlo y dylai cymunedau gael mewnbwn a bod rhan o'r Prif Gynllun Cymunedau yn cynnwys rhoi mesurau tymor byr ar waith ar gyfer y tymor twristiaeth nesaf.
- cytunodd y Pennaeth Ymgysylltu i drafod opsiynau ar gyfer llinellau melyn dwbl ymhellach ym Mhen y Pass / Rhyd Ddu gyda Chyngor Gwynedd er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth, a dywedwyd wrth yr Aelodau fod gan yr Asiantaeth Priffyrdd arwyddion wedi'u cynllunio ar gyfer Ogwen erbyn dechrau'r tymor twristiaeth nesaf.
- nododd Aelod fod llwybrau beicio angen mynediad i dir preifat ac roedd hyn yn debygol o gymryd blynyddoedd lawer i'w gyflawni.
- diolchodd Cadeirydd yr Awdurdod i'r swyddogion am yr adroddiad a chadarnhaodd y byddai'r Prif Weithredwr yn cyflwyno diweddariad llafar i'r Aelodau ar ddechrau pob cyfarfod o'r Awdurdod. Roedd yr aelodau'n ymwybodol o broblemau parcio cyn y pandemig, a nawr bod brechlyn wedi'i gymeradwyo, dylai'r Awdurdod ddarparu ymateb cytbwys a bod yn ofalus i beidio â thanseilio'r weledigaeth hirdymor ar gyfer y dyfodol. I ddechrau, roedd angen codi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth i dirfeddianwyr agor eu caeau ar gyfer parcio am hyd at 28 diwrnod.
- nododd y Prif Weithredwr y dylai'r Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Traffig drafod y materion hyn ymhellach a dylai casgliad adroddiad heddiw lywio eu cylch gorchwyl.
- nododd Pennaeth y Gwasanaeth Wardeiniaid fod y Gwasanaeth Wardeiniaid wedi gweithio'n dda gydag Awdurdod yr Heddlu a Chyngor Gwynedd dros fisoedd yr haf a'u bod bellach mewn gwell sefyllfa i ymateb i heriau yn y dyfodol.
- awgrymodd Aelod y dylai'r Awdurdod ddefnyddio technoleg 'ANPR' i gynorthwyo wrth fonitro ymweliadau ac nad oedd creu mwy o barcio ceir yn datrys y broblem.
- dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r camau sy'n cael eu cymryd yn dod yn gliriach yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd ac ail adroddodd mai rôl ymylol yn unig sydd gan yr Awdurdod wrth fynd i'r afael â'r broblem. Prif gryfder yr Awdurdod oedd dod â'r holl bartneriaid ynghyd.

PENDERFYNWYD

1. **nodi'r adroddiad gan gynnwys:-**
 - rôl polisi'r Cynllun Datblygu Lleol presennol wrth reoli'r mater hwn.
 - arwyddocâd Astudiaeth Martin Higgitt Associates a sut y gallai lywio polisi'r dyfodol.
 - yr ystod arall o gamau gweithredu a mesurau y mae'r Awdurdod yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn yn y tymor byr a'r tymor canolig.
2. **yn amodol ar nodi arsylwadau Aelodau fel yr amlinellwyd, i ofyn i'r Aelodau anfon unrhyw arsylwadau / cynigion pellach i fynd i'r afael â materion parcio i'r Rheolwr Partneriaethau i'w hystyried gan y Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Traffig.**
3. **bod y Prif Weithredwr yn rhoi diweddariad llafar i'r Aelodau ym mhob cyfarfod o'r Awdurdod.**

6. Adroddiad ar Gampyr Faniau a Gwersylla ar hap

Cyflwynwyd - Adroddiad ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir, y Swyddog Polisi Cynllunio, y Rheolwr Partneriaethau, y Pennaeth Ymgysylltu, y Pennaeth Gwasanaethau Eiddo a Phennaeth y Gwasanaeth Wardeiniaid, mewn ymateb i gynnis a godwyd gan y Cynghorydd John Pughe Roberts mewn perthynas â Champyr Faniau a Gwersylla ar hap.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir yr adroddiad a'r cefndir. Cynghorodd yr Aelodau ar y tueddiadau cyfredol a'r cyd-destun deddfwriaethol, ynghyd ag amlinellu rôl gorfodi cynllunio a pholisi cynllunio.

Cyflwynodd y Rheolwr Eiddo fanylion pellach am rôl yr Awdurdod fel tirlfeddiannwr a'r cyfyngiadau ar yr Awdurdod. Adroddodd nad oedd yr Awdurdod yn gallu cynnwys cyfeiriad at daliadau cosb ar arwyddion a godwyd i atal gwersylla dros nos, gan fod angen i'r costau fod yn gymesur o dan y Ddeddf Diogelu Rhyddid. Roedd hon yn broblem ym mhob un o Barciau Cenedlaethol y DU a nododd Aelodau bod rhwystrau corfforol yn symud problem gwersylla dros nos i leoliadau eraill yn unig.

Cynghorodd y Pennaeth Ymgysylltu ar rôl cyfathrebu a negeseuon a diolchodd i'r Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy sydd newydd ei phenodi am ei gwaith wrth baratoi'r adroddiad yn Atodiad 1 sydd ynghlwm, a oedd yn amlygu lefel y broblem. Mae'r Awdurdod yn parhau i weithio gyda'i bartneriaid ac roedd y Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy yn paratoi dogfen gryno i egluro'r materion a'r polisïau, a darparu arweiniad ar ba rai o'r partneriaid sy'n mynd i'r afael â materion penodol. Roedd gwaith pellach yn mynd rhagddo gyda Croeso Cymru ar lefel Genedlaethol ac roedd swyddogion hefyd yn gweithio gyda Pharciau Cenedlaethol eraill y DU sydd i gyd wedi profi'r un problemau.

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn:-

- er bod yr adroddiad yn ymddangos yn negyddol ei naws, roedd yr Aelodau'n teimlo bod enghreifftiau a gwersi da i'w dysgu o brofiadau eraill. Cysylltwyd â'r Awdurdod a gofynnwyd iddo ystyried atebion fel y cynllun AIRES yn Ffrainc. Roedd enghreifftiau da hefyd yn Seland Newydd, ac awgrymwyd y dylai swyddogion gysylltu â rhwydwaith Europarc i elwa o'u profiad.
- efallai mai un ateb fyddai caniatáu gwersylla dros nos ym meysydd parcio'r Parc Cenedlaethol gyda chyfleusterau toiled a fyddai'n llai niweidiol i'r amgylchedd. Awgrymodd yr aelodau hefyd ganiatáu defnyddio toiledau neuaddau pentref a meysydd parcio, neu, fel yn achos Dyffryn Conwy, i ganiatáu i westai a thafarndai ganiatáu i

wersyllwyr aros dros nos ar yr amod eu bod wedi defnyddio eu cyfleusterau ac wedi gwario swm penodol. Cytunwyd pe na bai'r farchnad gyfredol yn darparu'r hyn oedd ei angen, dylai'r Awdurdod ystyried pob cyfle i weithio mewn partneriaeth â'r cymunedau lleol i ddod o hyd i ganlyniadau cadarnhaol.

- gofynnodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir i'r Aelodau gofio bod cyfyngiadau i'r trafodaethau hyn gan nad oedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn dirfeddiannwr nac yn ddatblygwr a byddai caniatáu aros dros nos ym meysydd parcio'r Parc Cenedlaethol yn groes i'r polisi. Byddai, pe dymunai'r Aelodau, yn dod â cheisiadau am unrhyw gyfleusterau newydd i'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad i'w penderfynu, ac er bod ganddo gydymdeimlad â dwy ochr y ddadl, ni allai gytuno i unrhyw beth a fyddai ar draul busnesau lleol.
- dywedodd y Pennaeth Eiddo mai'r canfyddiad o fusnesau gwersylla lleol oedd bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn eu tanseilio trwy osod cyfyngiadau ar sut mae eu busnesau'n cael eu rhedeg, wrth beidio â mynd i'r afael â phroblemau gwersylla dros nos yn uniongyrchol a pheidio â rheoli'r hyn sy'n digwydd ar ei dir ei hun. Yn ogystal, nid oedd safleoedd gwersylla a charafanau lleol wedi gallu gweithredu hyd eithaf eu gallu oherwydd mesurau pellhau Covid, a allai fod wedi ychwanegu at y problemau parcio.
- Trafododd yr aelodau ymhellach yr opsiynau ar gyfer gosod dirwyon parcio a'r ddeddfwriaeth gyfredol. Dywedodd swyddogion fod trafodaethau yn parhau gyda Chynghorau Conwy a Gwynedd ynghylch atebion posibl.
- nododd Aelod ei bryderon na fyddai unrhyw beth yn cael ei wneud cyn tymor twristiaeth y Pasg a phwysleisiodd yr angen i ail edrych ar bolisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol ar safleoedd carafanau a gwersylla. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod gwaith yn mynd rhagddo ond mae newid polisiâu cynllun datblygu yn cymryd amser.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a chymhlethdod y mater ac i gefnogi'r camau gweithredu canlynol ac unrhyw gamau pellach y cytunwyd arnynt fel yr amlinellwyd uchod: -

1. bod swyddogion yn parhau i gasglu tystiolaeth ar y mater, yn enwedig o ran a oedd angen newid polisiâu yn y Cynllun Datblygu Lleol ai peidio.
2. sefydlu cydweithrediad ffurfiol â sefydliadau allweddol eraill i fynd i'r afael â'r materion hyn.
3. sefydlu dull amlasiantaethol ffurfiol o gyfathrebu yn ymwneud â'r mater hwn.
4. sicrhau bod unrhyw newidiadau i feysydd parcio'r Parc Cenedlaethol (rhwystrau, arwyddion ac ati) yn cael eu gwneud mewn cydweithrediad â'n partneriaid.
5. dod o hyd i gyllid / adnoddau ychwanegol i helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn.

7. Dathliadau Pen-blwydd yn 70 oed - 2021

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Pennaeth Ymgysylltu gyda throsolwg o syniadau ar gyfer dathlu Pen-blwydd Parc Cenedlaethol Eryri yn 70 oed yn 2021.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Ymgysylltu yr adroddiad a'r cynlluniau presennol. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y syniadau pellach fel yr amlinellwyd ym mhara. 4 a chyflwyno awgrymiadau ac arsylwadau.

Ystyriodd yr aelodau yr adroddiad a chyflwyno'r syniadau canlynol:-

- cyhoeddi "70 o bethau i'w gwneud / 70 diwrnod allan yn y parc" y dylid eu teilwra i fynd i'r afael â materion fel defnyddio ardaloedd llai prysur a symud allan o 'botiau mêl,' creu diwrnodau allan ecogyfeillgar a oedd yn fanteisiol yn economaidd i gymunedau ac ati.
- o ran prosiectau etifeddiaeth, roedd Aelod yn teimlo y dylai'r Awdurdod greu yn hytrach nac atgyweirio. Yn ogystal, o ran gwahoddiadau i enwogion, dylai'r rhain fod yng

nghyd-destun persbectif amgylcheddol neu'r dirwedd gydag apêl eang a chydbwysedd rhwng enwogion Cymru, y DU a Rhyngwladol.

- dylai unrhyw barti ddathlu'r cyd-destun allanol yn hytrach na mewnol ac yn benodol dathlu cyflawniadau fel tirweddau amgylcheddol sydd wedi'u gwella.
- atgoffodd Aelod y Gweithgor fod yr Awdurdod ei hun wedi'i sefydlu ers Ebrill 1996, a fydd yn 25 mlynedd yn 2021, a dylid nodi hyn mewn rhyw ffordd hefyd. Un awgrym oedd gwahodd cyn-aelodau'r Awdurdod a chyn-aelodau staff i ymuno yn y dathliadau naill ai ym Mhlas Tan y Bwlch neu yn rhithiwr, i gofnodi cyflawniadau'r Awdurdod dros y 25 mlynedd.
- awgrymodd Aelod ddefnyddio'r achlysur i ddathlu'r Gymraeg ac i gyfeirio atom ein hunain fel "Parc Eryri" yn y dyfodol heb ddefnyddio'r enw dwyieithog. Teimlai hefyd y byddai'n amhriodol cael parti o dan yr amgylchiadau presennol, ac er efallai y bydd Covid-19 wedi'i ddatrys, byddai ei effaith yn cael ei deimlo am nifer o flynyddoedd. Awgrymodd y dylai'r Awdurdod sefydlu cynllun cymorth i blant sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol i adfywio iechyd meddwl a chorfforol.
- nododd Aelod fod Grŵp Tasg a Gorffen eisoes wedi'i sefydlu i edrych ar ddefnyddio enwau lleoedd Cymreig ac ati.
- croesawyd y syniad o gerdded gyda'n gilydd fel staff ac Aelodau, ar ôl treulio'r flwyddyn ar wahân.

PENDERFYNWYD

- 1. nodi'r adroddiad.**
- 2. cefnogi'r argymhelliad bod yr holl syniadau'n cael eu rhoi i staff ac aelodau i bleidleisio ar y dewisiadau mwyaf poblogaidd.**
- 3. Cytunodd yr aelodau i e-bostio unrhyw awgrymiadau pellach at y Pennaeth Ymgysylltu erbyn 11eg Rhagfyr 2020**

Daeth y cyfarfod i ben am 15.05

**CYFARFOD CYNHADLEDD YMGYNGHOROL CELYN, TEGID A THRYWERYN
A GYNHALIWDYD YNG NGHANOLFAN HAMDDEN Y BALA AR Y 15fed O HYDREF 2019**

Presennol:

Cyng. Elwyn Edwards (Cadeirydd)	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Brian Angell	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Steve Davies	Rheilffordd Llyn Tegid
Sarah Lind	Bala Adventure and Watersports
Mark Lind	Bala Adventure and Watersports
Debbie Evans	Cyfoeth Naturiol Cymru
Joel Rees-Jones	Cyfoeth Naturiol Cymru
Matthew Jenkins	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rhodri Parry	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mared Llwyd	Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd
Jo Cullen	Dŵr Cymru
Gwenan Davies	Dŵr Cymru
Steve Pooley	Clwb Hwyllo Bala
Paul Welsh	Clwb Hwyllo Bala
Huw Antur Edwards	Gwersyll Glan-Ilyn
Alan J. Evans	Cyngor Cymuned Llanuwchllyn a Llanygerw
Euros Puw	Cyngor Cymuned Llanycil / Undeb Ffermwyr Cymru
Huw Jones	Undeb Ffermwyr Cymru
Dafydd Roberts	Dol Fach Llanuwchllyn / Undeb Ffermwyr Cymru
James Baker	Gwersylla Pant yr Onnen
Trevor Edwards	Cymdeithas Sgota'r Bala/Ffederasiwn Sgotwyr Dyfrdwy Uchaf
Rhys Edwards	Llechwedd Ystrad (tirfeddiannwr)
Beti Ffrancon	Bryn Hynod Llanygerw (tirfeddiannwr)

Swyddogion:

Iwan Jones	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Adam Daniel	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Simon Roberts	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Edward Jones	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Naomi Jones	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Anwen Gaffey	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

1. **Ethol Cadeirydd**
PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Elwyn Edwards yn Gadeirydd Cynhadledd Ymgynghorol Celyn, Tegid a Thryweryn.
2. **Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**
Cyng. Ifor Glyn Lloyd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyng. Gethin Williams, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Arwel Morris, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Rhys Owen, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Ynyr Jones, Dŵr Cymru
Alwyn Jones, Cyngor Cymuned Llandderfel
Harold Davies, Cyngor Cymuned Llanelltyd
Sue Davies, Cyngor Tref y Bala

Gareth Evans, Triathlon Cymru
Dylan C. Hughes, Pentre Piod Llangywer (Tirfeddiannwr)
Megan Pugh, Maes Carafanau Glanllyn (Tirfeddiannwr)

3. **Cofnodion**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion Cynhadledd ymgynghorol Celyn, Tegid a Thryweryn a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2012 fel cofnod cywir.

4. **Materion Er Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion**

6. Unrhyw fusnes arall

3. Adolygu Asedau

Dywedodd y Rheolwr Eiddo fod cytundebau wedi'u gwneud i drosglwyddo perchnogaeth rhai o feysydd parcio'r Awdurdod er budd eu cymunedau. Yn anffodus, roedd y peiriannau talu ac arddangos wedi dioddef difrod a lladrad ar sawl achlysur ac roedd y treial yn aflwyddiannus. Yna cytunodd yr Awdurdod i gyfrannu tuag at gynnal a chadw'r toiledau, ond bu hyn hefyd yn aflwyddiannus a dychwelwyd yr asedau i'r Awdurdod fel eu cyfrifoldeb hwy.

Mewn ymateb i gwestiwn, nododd Uwch Warden y De nad oedd yn gallu rhoi diweddariad i'r cyfarfod ar Llyn Arenig ar hyn o bryd gan nad oedd wedi bod yn rhan o'r prosiect.

5. **Adroddiad Blynyddol a Rhaglen Waith 2018/19**

Cyflwynwyd – Yr Adroddiad Blynyddol a'r Rhaglen Waith, er gwybodaeth.

Adroddwyd - Cyflwynodd Uwch Warden y De ei adroddiad a darparu cyflwyniad byr ar waith y 'Gwasanaeth Wardeinio'.

Darparodd y cyflwyniad: -

- grynodedb o waith y 'Gwasanaeth Wardeinio' yn Llyn Tegid a chyflwyniad i'r staff presennol. Yn codi ar hynny, gofynnodd y Cadeirydd, ar ran aelodau, i swyddogion gyfleu dymuniadau gorau am adferiad llawn a chyflym i Mr. Arwel Morris, Warden Llyn Tegid, wedi iddo gael llawdriniaeth yn ddiweddar.
- amlinelliad o'r gwaith mynediad a'r llwybr-ffyrdd a hyrwyddir. Roedd gwaith diweddar wedi disodli'r hen gamfeydd â gatiâu hunan-gau, gwrth-stoc mewn gwahanol bwyntiau mynediad.
- manylion yr hyfforddiant ar reoli tir a chadwraeth natur a roddir i ysgolion lleol. Roedd yr ysgolion hefyd wedi cymryd rhan wrth ddylunio'r arwyddion newydd ar hyd lan y llyn.
- gwybodaeth ar sut mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo cyfleoedd i wella iechyd a lles y cyhoedd.
- manylion am sut mae glan y llyn yn cael ei reoli - trafodwyd materion yn ymwneud â sbwriel a daflwyd yn y maes parcio, a'r mesurau diogelwch a wnaed. Diolchodd yr Uwch Warden i'r Urdd a Bala Adventure Watersports, am eu parodrwydd i gynorthwyo'r Gwasanaeth Wardeiniaid bob amser.
- tynnwyd sylw at y cyfleoedd hamdden dŵr hefyd.

Yn codi ar hynny, diolchodd Alan Evans, o Gyngor Cymuned Llanuwchllyn a Llangywer i'r Gwasanaeth Wardeiniaid am eu holl waith ac am eu parodrwydd i gynorthwyo'r gymuned leol i ddatrys materion amrywiol.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.

6. **Torri Coed ar y Draethlin**

Cyflwynwyd – Diweddariad gan Reolwr Prosiect Cyfoeth Naturiol Cymru, Mr. Matthew Jenkins.

Rhoddwyd cefndir a diweddariad byr i'r aelodau ar brosiect Diogelwch Cronfa Ddŵr Llyn Tegid. Roedd y prosiect yn cael ei ddatblygu yn dilyn archwiliad diogelwch yn 2014 a oedd wedi codi pryderon diogelwch tymor hir. Fel ardal sy'n amgylcheddol sensitif, un o'r atebion oedd cryfhau'r argloddiau heb godi eu huchder a gosod cerrig / gwenithfaen yn lle'r llechi. Darparwyd argraff artist drafft o'r gwaith arglawdd gorffenedig a gwelliannau maes parcio APCE yn dangos datblygiadau hygyrchedd, gwaith ar y rhwystrau i ganiatáu mynediad i'r anabl a gwelliannau graddiant lle bo hynny'n bosibl. Dywedodd y Rheolwr Prosiect, er y bu diffyg cynnal a chadw ar hyd lan y llyn yn y gorffennol, y byddai newid gweithredol yn y dyfodol ac y byddai CNC yn cynnal a chadw'r glannau.

Cadarnhaodd y Rheolwr Prosiect y byddai rhywfaint o goed yn cael eu tynnu, er, fe fyddai coed a oedd mewn cyflwr da yn cael eu cadw lle bo amgylchiadau'n caniatáu. Byddai rhywfaint o gysgod coed yn cael ei golli, ond y ffocws gweledol fyddai'r llyn a'r golygfeydd godidog. Roedd CNC wedi ymrwymo'n llwyr i ail blannu ac ar hyn o bryd roeddent yn trafod gyda thirfeddianwyr ynghylch gwella gwrychoedd a phlannu coed yn lle'r rhai a gollwyd ac ail-greu rhywfaint o gysgod.

Dywedodd y Rheolwr Prosiect fod rhai meysydd wedi'u tanddefnyddio yn y gorffennol ac y byddai'r cynllun yn: -

- darparu mynediad agored a thaith gerdded gylchol
- darparu lleoedd eistedd a chaffi newydd
- gwella cysylltiadau â'r blaendraeth
- symud rhai llwybrau a gwella mynediad i'r anabl
- cynnwys cynnig drafft ar gyfer y maes parcio gorlif.
- erbyn hyn roedd cyswllt gweithio agos rhwng cynllun CNC ac estyniad Rheilffordd y Bala.
- byddai'r argloddiau'n "barod ar gyfer y trac".
- cadarnhaodd y Rheolwr Prosiect fod contractwyr yn cael eu hannog i ddod o hyd i ddeunyddiau yn lleol

Dywedwyd wrth yr aelodau bod Ymgysylltu â Rhanddeiliaid wedi codi'r pryderon a ganlyn:-

- tynnu coed
- graddoli ac aflonyddu ar dwristiaeth a'r economi leol
- yr effaith ar ddigwyddiadau
- llifogydd - pryderon nad oedd y cynllun yn cynyddu uchder y glannau nac yn effeithio ar y ffordd yr oedd lefelau'r llynnoedd yn cael eu rheoli.

Mewn ymateb, dywedodd swyddogion y byddai tua 270 o goed yn cael eu cwmpo ac y byddai CNC yn disodli o leiaf cymaint o goed ag a gafodd eu tynnu, yn ddarostyngedig i gytundebau â thirfeddianwyr ac ati. Hefyd, byddai'r prosiect yn cael ei gynnal fesul cam ac yn cael ei symud o gwmpas i leihau maint yr effaith. Sicrhaodd swyddogion y cyfarfod y byddent yn ymdrechu i ganiatáu i ddigwyddiadau mawr gael eu cynnal ac na fyddai unrhyw ardaloedd yn cael eu cau gyda mynediad yn cael ei gynnal drwyddo draw. Roedd llinell amser y prosiect yn rhagweld y byddai'r gwaith adeiladu yn dechrau yn yr Hydref 2020 ac y byddai'r gwaith yn parhau am 18-24 mis arall.

Yn dilyn y cyflwyniad, codwyd y pryderon a ganlyn:-

- roedd lefelau uchel y llyn yn bryder mawr. Byddai dal y lefel yn uwch yn golygu y byddai llifogydd yn digwydd, fel y digwyddodd yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf.
- pam na ostyngwyd lefel y llyn mewn ymateb i ragolygon y tywydd?
- roedd gwefan CNC wedi datgelu bod lefel y llyn yn uwch na'r lefelau uchaf a gofnodwyd yn 2011.
- roedd tiffeddiannwr lleol yn teimlo y dylai CNC fod yn fwy rhagweithiol. Dywedodd fod hyd at 8 troedfedd o ddŵr yn dod ar ei dir o, sy'n effeithio ar lefelau calch, sydd wedi cael eu profi am y 15 mlynedd diwethaf, ac yn arwain at orfod calchio'r tir eto sy'n ddrud.
- gofynnwyd i swyddogion pam nad oedd CNC yn gweithio gyda Dŵr Cymru i ostwng lefelau'r llyn?
- mae'r hinsawdd wedi newid, ynghyd â lefelau'r llyn, sy'n golygu bod angen gostwng y system gyfan.

Dywedodd Debbie Evans, Cyfoeth Naturiol Cymru, fod y prosiect i wella a diweddarau'r data yn parhau. Esboniodd fod glawiad yn cael ei storio yn Llyn Celyn a bod dŵr yn cael ei ddal nid yn unig i amddiffyn y Bala ond Dyffryn Dyfrdwy i gyd. Bu sawl digwyddiad, fel storm Callum, lle codwyd y llifddorau yn llwyr allan o'r dŵr ac nad oedd CNC yn dal lefel y llyn yn uwch. Y nod oedd ceisio cadw lefel ar gyfer yr holl ddefnyddwyr ac er bod lefel Llyn Celyn yn uchel ar hyn o bryd, bu gollyngiadau rheoledig parhaus ers wythnosau. Eleni efallai bod lefel y llyn wedi bod ychydig yn uwch ond roedd CNC yn rhyddhau dŵr bob dydd i geisio ei ostwng ac nid oeddent yn dal Llyn Tegid yn uwch nag ar unrhyw adeg arall. Roedd newid yn yr hinsawdd yn cael effaith a chafwyd 2 ddigwyddiad gwlyb iawn ym mis Awst 2019 lle'r roedd y gathiau allan o'r dŵr yn llwyr.

Yn codi ar hynny, cytunodd Debbie Evans i adrodd y sylwadau a godwyd yn ôl i CNC a dywedodd y byddai adroddiad manylach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf o'r Grŵp Ymgynghorol.

PENDERFYNWYD

- 1. nodi'r adroddiad a chroesawu'r cyflwyniad.**
- 2. aros am adroddiad manwl ar lefelau llynnoedd i'r cyfarfod nesaf.**
- 3. trefnu cyfarfod pellach o Gynhadledd Ymgynghorol Celyn, Tegid a Thryweryn bob dwy flynedd, ac ystyried sefydlu is-bwyllgor i ganolbwyntio ar waith y Gwasanaeth Wardeiniaid sy'n Llyn Tegid.**

7. Rheilffordd Llyn Tegid

Cyflwynodd Mr. Davies ei hun fel Ymddiriedolwr y rheilffordd a rhoddodd grynodedb o'i gefndir personol i'r cyfarfod. Esboniodd fod yr Ymddiriedolaeth wedi'i sefydlu i godi £2.5 miliwn er mwyn adeiladu estyniad Rheilffordd Llyn Tegid i Orsaf Tref Y Bala. O ran treftadaeth, roedd yn brosiect sylweddol, a fyddai'n cael effaith economaidd sylweddol ar yr ardal. Ar hyn o bryd roedd y rheilffordd yn rhagori ar y disgwyliadau twf ac wedi dangos cynnydd cynaliadwy o ran teithwyr a refeniw. Fel rheilffordd gul 2 droedfedd roedd yn rhad i'w rhedeg ac yn syml i'w gweithredu ac nid oedd unrhyw risg na fyddai'r buddsoddiad yn cael ei wireddu.

Dywedodd mai budd pellach i'r cynllun oedd bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar hyn o bryd yn cynnal a chadw ac atgyweirio amddiffynfeydd llifogydd. Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi gweithio'n agos gyda'r CNC ac roedd y llinellau amser priodol

ar gyfer y cynllun Rheilffordd a chynllun Arglawdd CNC bellach yn rhedeg ochr yn ochr. Trwy gydweithrediad, roedd disgwyl y byddai CNC yn gwneud y gwaith peirianeg sifil ac yna bydd y rheilffordd yn gosod y trac fel rhan o'r estyniad a fydd yn rhedeg ar hyd blaendraeth y llyn.

Dyweddodd Mr Davies fod y prosiect yn cael ei gefnogi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Rhagwelwyd y byddai'r estyniad yn cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r rheilffordd i o leiaf 55,000 y flwyddyn, a fyddai'n cynyddu'r amcangyfrif o wariant blynyddol yn yr economi leol i dros £1 miliwn, ac yn creu 11 swydd arall.

Roedd y Cwmni Rheilffordd wedi ymrwymo £250k o'i arian ei hun i brynu'r tir ar gyfer prif safle'r orsaf ac i wneud gwaith paratoi tir. Hefyd, roedd gwaith yn parhau ar brynu tir gan Glwb Rygbi'r Bala ar gyfer rhan nesaf o ymestyn gwely'r trac. Amlinellodd Mr Davies y llwybr arfaethedig a dywedodd fod cynnig i'r rheilffordd rannu'r defnydd o'r bont bresennol ar y gweill. Mewn ymateb i gwestiwn, sicrhodd Mr Davies y cyfarfod na fyddai angen torri unrhyw goed, ac eithrio'r coed sydd wedi'u cynnwys ar gynllun arglawdd CNC. Dywedodd fod rhai heriau yn parhau, megis argyhoeddi un ffermwr i werthu rhywfaint o dir, sicrhau caniatâd cynllunio ac ati, ond roedd yn rhagweld y byddai dyddiad agor optimistaidd rhyw ben yn ystod 2022. Roedd angen cefnogaeth leol ar y cynllun a gofynnodd Mr. Davies i bawb a oedd yn bresennol i hyrwyddo'r prosiect os gwelwch yn dda.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a diolch i Mr Davies am ei gyflwyniad.

8. Caer Gai

Cyflwynwyd – Adroddiad diweddarau gan y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol, er gwybodaeth.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol yr adroddiad a dywedodd mai dim ond ers 7 wythnos yr oedd hi wedi bod yn ei swydd newydd. Rhoddwyd cefndir i'w rôl i'r aelodau ac yna cawsant ddiweddariad ar y sefyllfa bresennol yng Nghaer Gai.

Dyweddodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol, wrth i'r Awdurdod anelu at warchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol ei ardaloedd, y byddai'n croesawu unrhyw syniadau ar gyfer coffáu treftadaeth ddiwylliannol Caer Gai a chytunodd fod mwy o waith i'w wneud ym Mhenllyn. Er gwybodaeth, dywedwyd wrth yr Aelodau bod y garej leol ar hyn o bryd yn darparu map i gofnodi a chofrestru enwau lleol.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

9. Cynllun LIFE ar Afon Dyfrdwy

Cyflwynwyd – Diweddariad gan Joel Rees-Jones, Uwch Swyddog (Pysgodfeydd), Cyfoeth Naturiol Cymru.

Derbyniwyd - Rhoddodd yr Uwch Swyddog (Pysgodfeydd) gyflwyniad byr ar gynllun a chais LIFE ar yr Afon Dyfrdwy. Dywedodd fod adfer yr afon yn flaenoriaeth i CNC ac amlinellodd y rhywogaethau y dynodwyd ACA Llyn Tegid ar eu cyfer, megis Eog yr Iwerydd, Llyriad Dŵr arnofiol, Llysywod bendoll y môr, nant ac afon, Brithyll y Dom a'r Dyfrgi Ewropeaidd. Y prif faterion oedd cyrsiau dŵr wedi'u haddasu (mudiad pysgod - coredu, camlesu) a llygredd dŵr (coedwigaeth a ffynhonnell bwyntiau) ac roedd hwn yn brosiect 5 mlynedd gwerth £7m (roedd 60% ohono o'r UE). Byddai'r prosiect yn cynnwys 9 swydd amser llawn a byddai hefyd yn cynnwys gweithio mewn

partneriaeth. Trafodwyd trosolwg o'r camau arfaethedig, a oedd yn cynnwys coredu mudo pysgod, adfer afonydd, rheoli tir, coedwigaeth a rheoli cadwraeth.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chroesawu'r cyflwyniad.

10. Capel Coffa, Capel Celyn

Cyflwynwyd – Diweddariad llafar gan Gwenan Davies o Dŵr Cymru, er gwybodaeth.

Adroddwyd - Cafodd yr aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am Gapel Celyn. Roedd y capel yn eiddo i Dŵr Cymru fel rhan o'u gweithrediad o'r gronfa ddŵr. Dywedwyd wrth yr aelodau y bu achosion o fandaliaeth yn y capel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac o ganlyniad, nid oedd y capel bellach ar agor i'r cyhoedd, a dim ond trwy apwyntiad ymlaen llaw y gellid ymweld ag o. Cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol diweddar a chodwyd giât newydd i atal cerbydau rhag goryrru. Roedd y ffens o flaen y capel wedi cacel ei hatgyweirio, roedd y gwair yn cael ei dorri'n rheolaidd a choed yn cael eu torri'n ôl er mwyn amlygu'r olygfa, ac roedd canllaw wedi'i godi ar y llwybr i lawr i'r capel. Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai Dŵr Cymru yn ddiolchgar iawn pe gallai'r gymuned leol riportio unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol iddynt.

Yn ddiweddar, cofrestrwyd Capel Coffa fel Adeilad Rhestredig Gradd II* gan Cadw, nid yn unig am ei werth pensaernïol, ond hefyd am ei arwyddocâd diwylliannol. Roedd Dŵr Cymru bellach yn chwilio am wasanaethau Pensaer Cadwraeth i ddarparu cadwraeth tymor hir a hefyd mynd i'r afael â'r broblem o ddŵr yn mynd i mewn i'r capel.

Dywedwyd wrth yr aelodau y gallai ysgolion lleol, cwmnïau ffilm ac ati, sydd angen mynediad i'r capel gysylltu ag Ynyr Jones, Dŵr Cymru, sy'n gweithio'n lleol ac mae ganddo oriad. Gellid gwneud ceisiadau hefyd trwy Swyddfa Caerdydd Dŵr Cymru.

Bydd panel dehongli ac ardal eistedd sy'n cynnwys byrddau yn cael eu darparu fel rhan o ddatblygiadau yn y dyfodol yng Nghapel Celyn a bu cyfle hefyd i weithio gyda chynrychiolwyr Treftadaeth Fron-goch.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a diolch Gwenan Davies am ei chyflwyniad.

11. Unrhyw fusnes arall

Mynegodd aelod bryderon bod mwd yn parhau i gronni yn y bae yng Nglanllyn, gan beryglu gweithgareddau dŵr, a bod angen datrysiad i'r broblem. Mewn ymateb, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r mater hwn yn cael ei godi gyda'r swyddog perthnasol.

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd wedi mynychu am eu cyfraniad gwerthfawr a daeth y cyfarfod i ben am 12.25 yp.